Busnes@ gwynedd.llyw.cymru

# Telerau a Amodau
# Grant Gwella Eiddo 2023

CYNGOR GWYNEDD

Rydych wedi derbyn cynnig grant o Grant Gwella Eiddo Canol Trefi Gwynedd – wrth dderbyn y cynnig, rydych yn ymrwymo i gadw at y Telerau ac Amodau islaw. Darllenwch y telerau yn ofalus a sicrhewch eich bod yn eu deall cyn cytuno i dderbyn y grant

TELERAU AC AMODAU CYFFREDINOL

Mae rhai o'r grantiau sy'n cael eu dosbarthu trwy'r gronfa hon yn cael eu cyllido yn rhannol gan Cyngor Gwynedd, ac yn rhannol gan Cronfa Ffyniant Cyffredin: Gwynedd, a rhai o'r grantiau yn cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru trwy raglen Trawsnewid Trefi

**Os ydi'ch grant wedi'i gynnig trwy raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, mi fydd hyn yn glir yn eich cynnig swyddogol**

Wrth weinyddu'r grantiau, rhaid i Gyngor Gwynedd gydymffurfio â'i rwymedigaethau i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, sicrhau bod y Grant yn cael ei ddefnyddio i'r dibenion y mae wedi'i fwriadu ac i alluogi i'r Awdurdod fonitro cynnydd y Prosiect Grant a darparu adroddiadau.

Yr "Awdurdod" yw Cyngor Gwynedd

Y "Cyfnod Ariannu" yw'r cyfnod hyd 30 Medi 2024, neu 31 Rhagfyr 2023 os ydych wedi derbyn eich grant trwy raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Mi fydd hyn wedi'i ddatgan yn glir yn eich cynnig

Y "Prosiect" yw'r gweithgaredd yr ydych wedi derbyn grant tuag ato, sydd wedi'i osod allan yn eich ffurflen gais cymeradwy

Mae "Gwariant Cymwys" yn golygu'r gwariant cymeradwy sydd wedi gosod allan yn y cais grant cymeradwy y mae Derbynnydd y Grant yn ei wario yn ystod y Cyfnod Ariannu er dibenion cyflwyno'r Prosiect

"Chi" yw Dderbynnydd y Grant

Er mwyn derbyn y grant yma, rydych yn cadarnhau:

bod yr holl wybodaeth yn y ffurflen gais, a'r holl wybodaeth ychwanegol a chyflwynwyd gennych chi yn gywir hyd eithaf eich gwybodaeth, ac y gallai'r Cyngor gymryd camau yn erbyn y sawl sy'n cyflwyno'r ffurflen gais i adhawlio'r grant ac unrhyw gostau, taliadau neu dreuliau sydd ynghlwm â hynny;

bod gennych chi'r hawl a'r awdurdod llawn i weithredu ar ran y busnes/sefydliad sy'n derbyn y grant

bod angen y grant yma er mwyn gwneud yr hyn sydd wedi'i osod allan yn eich ffurflen gais cymeradwy, naill ai o gwbl, i'r un raddfa, neu o fewn amserlen resymol

Hyd 2035, ni cheir defnyddio'r Offer/Eiddo ond ar gyfer yr hyn a nodir yn y Ffurflen gais a rhaid i Dderbynydd y Grant sicrhau bod yr Offer/Eiddo yn cael eu cadw mewn cyflwr da ond disgwylir y bydd traul a gwisgo rhesymol arnynt.

bod yr holl ganiatadau statudol angenrheidiol, yn cynnwys pob caniatâd cynllunio, hawliau a chymeradwyaeth angenrheidiol ar gyfer y gwaith. mewn lle

Hyd 2035, ni cheir defnyddio'r Eiddo ond ar gyfer y defnydd a nodir yn y Cais ac mae Derbynnydd y Grant yn sicrhau y cydymffurfir â'r holl ofynion statudol perthnasol a gofynion cyfreithlon eraill (gan gynnwys, heb gyfyngiadau, gofynion cynllunio, rheoliadau adeiladu a rheoliadau tân) ac y cedwir yr Adeilad mewn cyflwr da.

nad ydych yn derbyn arian grant am nwyddau neu wasanaethau sydd wedi'u prynu cyn y dyddiad yr ydych yn derbyn y cynnig grant.

ni fyddwch yn prynu nwyddau neu wasanaethau gydag arian parod

os ydych yn creu swyddi, byddwn ni'n gofyn am dystiolaeth o hynny, er enghraifft trwy ddangos rhestr cyflogau, copi slip talu, copi cytundeb gwaith, neu gopi o Ffurflen P36. I ddangos eich bod wedi gwarchod swyddi, byddwn angen llythyr o eglurhad gan berchennog neu prif-weithredwr eich cwmni.

Disgwylir i dderbynnydd y grant sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei nodi fel sgil hanfodol mewn hysbysebion ar gyfer unrhyw swyddi gwasanaeth / sydd yn wynebu'r cyhoedd, ac y dylid ystyried gosod gofynion iaith ar gyfer pob swydd arall a gaiff ei chreu o ganlyniad uniongyrchol i'r grant, gan nodi'r gofynion sydd fwyaf addas i natur y swydd.

Disgwylir i'r chi wneud pob ymdrech i hysbysebu a hyrwyddo cyfleoedd swyddi yn lleol

y bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddus a ariannir gan y grant (megis arwyddion) yn cydymffurfio â Pholisi Iaith Cyngor Gwynedd;

Hyd 2035, ni chaiff Derbynnydd y Grant (chi) werthu na chytuno i werthu'r cyfan neu unrhyw ran o'i ddiddordeb yn yr Eiddo/Offer/Asedau heb gael hawl ysgrifenedig o flaen llaw gan y Cyngor.

Mae Cyngor Gwynedd â'r hawl ar unrhyw adeg i gymryd PRIDIANT CYFREITHIOL ar yr Eiddo/Offer/Asedau sy'n ffurfio rhan o'r Prosiect hyd 2035

Pan fo Derbynnydd y Grant yn ymrwymo i gontract gyda Thrydydd Parti mewn cysylltiad â'r prosiect, bydd Derbynnydd y Grant yn parhau i fod yn gyfrifol am dalu'r Trydydd Parti hwnnw. Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw gyfrifoldeb am dalu anfonebau Trydydd Parti.

Ni fydd talu'r arian Grant yn ei flaen a defnyddio is-gontractwyr yn rhyddhau Derbynnydd y Grant o unrhyw un o'i rwymedigaethau dan y Cytundeb Cyllid Grant, gan gynnwys unrhyw ymrwymiad arno i ad-dalu'r Grant.

Bydd Derbynnydd y Grant yn hysbysu'r Awdurdod yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol:

unrhyw fethiant gwirioneddol neu bosib i gydymffurfio ag unrhyw un o'i rwymedigaethau dan y Telerau ac Amodau, sy'n cynnwys y rhai sydd wedi'u hachosi gan anawsterau gweinyddol, ariannol neu reolaethol; ac

amrywiadau gwirioneddol neu bosib i'r Gwariant Cymwys ac/neu unrhyw ddigwyddiad sy'n effeithio'n sylweddol ar gywirdeb parhaus gwybodaeth o'r fath.

Hyd 2035, y byddwch yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau monitro, gan gynnwys cwblhau a dychwelyd ffurflenni monitro

Y byddwch yn ymrwymo i weithio tuag at statws Cynnig Cymraeg

Y byddwch yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol <http://www.livingwage.org.uk/> os ydych chi'n cyflogi staff (dros 18 oed) erbyn Rhagfyr 2024 fan bellaf (nid yw'n ofynnol sicrhau achrediad y Sefydliad Cyflog Byw);

Bydd Derbynnydd y Grant a'r Awdurdod yn cydymffurfio bob amser gyda'u rhwymedigaethau perthnasol dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Mae'r Partïon yn cytuno, er dibenion y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, bod Derbynnydd y Grant yn Rheolydd Data a'r Awdurdod yn Rheolydd Data.

Y byddwch yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol <http://www.livingwage.org.uk/> os ydych chi'n cyflogi staff (dros 18 oed) erbyn Rhagfyr 2024 fan bellaf (nid yw'n ofynnol sicrhau achrediad y Sefydliad Cyflog Byw);

Bydd Derbynnydd y Grant a'r Awdurdod yn cydymffurfio bob amser gyda'u rhwymedigaethau perthnasol dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Mae'r Partïon yn cytuno, er dibenion y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, bod Derbynnydd y Grant yn Rheolydd Data a'r Awdurdod yn Rheolydd Data.

AMSERLEN

Gallwch gyflwyno cais cyn gynted a bod gennych chi'r holl dystiolaeth o wariant sydd ei angen i'w wneud.

Ni fydd modd talu unrhyw hawliadau a derbynnir ar ôl 30 Medi 2024

Os ydych wedi derbyn eich grant trwy raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, ni fydd modd talu unrhyw hawliadau a derbynnir ar ôl 31 Rhagfyr, 2023

HAWLIO

Mae'r Awdurdod yn anelu i wneud taliadau o fewn 20 diwrnod gwaith o'r Awdurdod yn cymeradwyo Hawliad Grant Derbynnydd y Grant.

Rhaid cyflwyno'r holl dystiolaeth a'r wybodaeth angenrheidiol gyda'r ffurflen hawlio er mwyn i'r Hawliad cael ei gymeradwyo.

Wrth dderbyn y telerau ac amodau yma, byddwch yn derbyn dolen i'r ffurflen hawlio, i'w gwblhau ar-lein pan fyddwch wedi cwblhau eich gwariant. Mewn eithriadau, gallwn ganiatáu i chi wneud mwy nag un hawliad dros gyfnod y prosiect (hawliad interim), er fydd cyfanswm gwerth eich cynnig grant yn aros yr un peth.

Mae'r swm grant yn cynrychioli'r uchafswm fydd yn cael ei dalu, ac nid yw hyn yn cynyddu i gwrdd ag unrhyw orwariant gan Dderbynnydd y Grant.

Bydd y taliad yn cael ei wneud fel ôl-ddyled ac fe'i telir unwaith y byddwch wedi talu am yr eitemau/gwasanaethau sydd wedi'u cyflwyno yn eich ffurflen gais yn llawn, a'r Prosiect wedi'u cyflwyno yn ystod y Cyfnod Cyllido. Ni fyddwn yn eich ad-dalu am unrhyw eitem na gwasanaeth nad oedd yn rhan o'ch cais cymeradwy.

Rhaid i chi (Dderbynnydd y Grant) ddatgan y swm, pwrpas a ffynhonnell unrhyw gyllid trydydd parti a ddefnyddir i gau unrhyw ddiffyg mewn cyllido sydd ei angen ar gyfer y Prosiect ("Arian Cyfatebol"). Mae gan yr Awdurdod hawl i derfynu'r Cytundeb Cyllid Grant os nad yw'n cytuno gyda'r defnydd o Arian Cyfatebol. Ni allwch chi (Derbynnydd y Grant), dderbyn "Arian Dyblyg ", sy'n gyllid sydd ar gyfer yr un diben a'r Grant.

Er mwyn hawlio'r grant, mi fydd angen i chi darparu Cyngor Gwynedd gyda:

- Anfonebau a derbynebau gwreiddiol a dderbyniwyd gyda manylion pob gwariant a wnaed yn gysylltiedig â'r gwaith
- tystiolaeth y talwyd amdanynt (e.e. copïau o gyfriflenni banc). Os gwnaed taliadau gyda chardiau credyd, neu gyffelyb, bydd angen tystiolaeth bod taliadau llawn wedi'u gwneud i gwmni'r cerdyn credyd.
- rhifau cyfresol o eitemau perthnasol.

Ni fydd Cyngor Gwynedd yn rhyddhau unrhyw daliad nes bydd y wybodaeth angenrheidiol i gyd wedi'u derbyn

Gall Cyngor Gwynedd wrthod gwneud taliad o'r Grant os, yn ôl ei ddisgresiwn, nad yw'n fodlon mewn unrhyw ffordd gyda'r gwaith terfynol/interim neu gyda'r taliadau a wnaed mewn perthynas ag o, neu gyda chanlyniad unrhyw archwiliad o'r gwaith (wele "Monitro" isod).

MONITRO

Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i gynnal adolygiad ffurfiol o'ch grant/prosiect i sicrhau cynnydd y prosiect a'i gydymffurfiaeth â'r Telerau ac Amodau yma. Os oes problem berthnasol gyda'r Prosiect, gall yr Awdurdod gymryd camau sy'n cynnwys terfynu'r Grant, gostwng yr Uchafswm ac adennill unrhyw arian sydd heb ei wario.

Rhaid i chi (Dderbynnydd y Grant) fonitro cyflwyniad a llwyddiant y prosiect drwy'r Cyfnod Cyllido i sicrhau bod nodau ac amcanion y prosiect yn cael eu cyflawni.

Rydym yn gosod rhwymedigaeth arnoch chi (Dderbynnydd y Grant) i roi mynediad rhesymol i unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi gan yr Awdurdod, Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, neu unrhyw swyddog gorfodaeth cymhorthdal y DU gyda rhybudd neu'n ddirybudd, i'w weithwyr, asiantau, eiddo, cyfleusterau a chofnodion, er dibenion trafod, monitro a gwerthuso eich cyflawniad o'ch rhwymedigaethau dan y cytundeb yma

Bydd Derbynnydd y Grant yn rhoi i'r Awdurdod yr holl gymorth a chydweithrediad rhesymol yn ddi-oed mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth, eglurhad a dogfennau fel y gallai'r Awdurdod fod ei angen yn ysgrifenedig, o bryd i'w gilydd, fel bo modd i'r Awdurdod sefydlu p'un a yw Derbynnydd y Grant wedi defnyddio'r Grant yn unol â'r Telerau ac Amodau yma.

Bydd Derbynnydd y Grant yn rhoi i'r Awdurdod yr holl gymorth a chydweithrediad rhesymol yn ddi-oed mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth, eglurhad a dogfennau fel y gallai'r Awdurdod fod ei angen yn ysgrifenedig, o bryd i'w gilydd, fel bo modd i'r Awdurdod sefydlu p'un a yw Derbynnydd y Grant wedi defnyddio'r Grant yn unol â'r Telerau ac Amodau yma.

CADW DOGFENNAU

Rhaid i chi (Dderbynnydd y Grant) gadw'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r Prosiect hyd 2035. Er enghraifft, bydd y rhain yn cynnwys y rhai sy'n nodi allbynnau a deilliannau, anfonebau, derbynebau, cofnodion cyfrifo, datganiadau banc (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr) ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n ymwneud â'r Gwariant Cymwys (er enghraifft slipiau cyflog a chytundebau gwaith) ar ôl i'r Cyfnod Cyllido ddod i ben.

ASEDAU

Mae gofyn i chi (Dderbynnydd y Grant) gadw cofrestr o asedau mewn perthynas â'r asedau a brynwyd gyda'r Grant, i gynnwys:

dyddiad caffael neu wella;

disgrifiad o'r Ased;

cost, net TAW y gellir ei adennill;

lleoliad yr Ased;

rhifau cyfres neu adnabod;

lleoliad y gweithredoedd;

dyddiad unrhyw Warediad;

polisi dibrisiad/amorteiddiad a weithredwyd;

enillion unrhyw Warediad net TAW; a

hunaniaeth y person y mae'r Ased wedi cael ei throsglwyddo neu ei gwerthu iddynt.

RHEOLAETH ARIANNOL AC ATAL TWYLL

Rhaid i chi (Dderbynnydd y Grant) gydymffurfio â phob Cyfraith Berthnasol. Yn benodol, rhaid i chi gydymffurfio â statudau a rheoliadau sy'n ymwneud â gwrth-lwgrwobrwyaeth a gwrth-lygredigaeth. Rhaid i Dderbynnydd y Grant gael proses weinyddu ac archwilio gadarn, gan gynnwys mesurau rheoli ariannol mewnol i'w ddiogelu rhag twyll, dwyn, gwyngalchu arian, cyllido terfysgaeth neu unrhyw amhriodoldeb arall, neu gamreolaeth mewn cysylltiad â gweinyddu'r Grant.

YSWIRIANT

Rhaid i bob eiddo a brynwyd a neu'i adnewyddwyd cael ei yswirio'n briodol hyd at werth ei adfer yn llawn, ac yn ogystal rhaid i'r Prosiect yn ei gyfanrwydd yn cael ei yswirio'n briodol rhag hawliadau anaf personol, neu ddifrod neu golled i eiddo mewn cysylltiad â'r Prosiect. Bydd disgwyl i chi (Derbynydd y Grant) cyflwyno'r fath bolisïau yswiriant i'r Awdurdod yn ôl y gofyn. Rhaid cadw'r yswiriant yma mewn lle am 6 mlynedd yn dilyn diwedd y Cyfnod Ariannu.

COD YMDDYGIAD

Rhaid i chi (Dderbynnydd y Grant) ddilyn Cod Ymddygiad Llywodraeth y DU ar gyfer Derbynyddion Grantiau Cyffredinol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet. Gweler dolen at y ddogfen hon https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/754555/2018-11-06_Code_of_Conduct_for_Grant_Recipients.pdf, gan gynnwys unrhyw ddiweddariadau dilynol neu unrhyw ganllawiau dilynol o bryd i'w gilydd;

BUDDIANNAU SY'N GWRTHDARO

Ni fydd Derbynnydd y Grant na'i Gynrychiolwyr yn ymgysylltu ag unrhyw weithgarwch personol, busnes neu broffesiynol sy'n gwrthdaro neu a allai wrthdaro gydag unrhyw un o'i rwymedigaethau mewn perthynas â'r Telerau ac Amodau yma

Rhaid i Dderbynnydd y Grant gael a chadw yn eu lle weithdrefnau digonol i reoli a monitro unrhyw fias gwirioneddol neu ganfyddedig neu fuddiannau sy'n gwrthdaro.

Bydd Derbynnydd y Grant yn hysbysu'r Awdurdod yn ysgrifenedig ac yn ddi-oed os bydd gwrthdrawiad buddiannau yn codi a sut fydd yn monitro hyn ac yn ymchwilio i unrhyw risgiau o ddiffyg cydymffurfio â'r Amodau hyn.

DIGWYDDIAD DIFFYGDALU

Os bydd unrhyw un o'r digwyddiadau a ganlyn yn digwydd Gall yr Awdurdod gymryd amrediad o gamau, sy'n cynnwys terfynu taliadau'r Grant, gostwng yr uchafswm eich cynnig grant, gofyn am ad-daliad o'r cyfan neu unrhyw ran o swm y Grant sydd eisoes wedi cael ei dalu i chi (Dderbynnydd y Grant) neu ofyn i chi (Dderbynnydd y Grant) unioni'r diffyg:

1. Eich bod yn defnyddio'r grant, neu'r offer/gwasanaethau/eiddo yr ydych wedi'u prynu neu adnewyddu hefo'r grant at ddiben gwahanol i'r hyn sydd wedi'i gyflwyno yn eich cais cymeradwy
2. Os nad ydych yn cadw at y Telerau ac Amodau sydd wedi'u gosod allan yn y ddogfen hon
3. Os nad ydych yn cychwyn ar y gwaith i gyflawni'r Prosiect, ac yn methu â rhoi eglurhad boddhaol i'r Awdurdod am yr oedi, neu wedi methu â chytuno ar ddyddiad newydd lle y bydd y Prosiect yn cychwyn gyda'r Awdurdod
4. Os ydych yn defnyddio'r Grant ar gyfer Gwariant Anghymwys
5. Os ydych yn methu, ym marn yr Awdurdod, i wneud cynnydd boddhaol gyda'r Prosiect ac yn benodol, i gwrdd ag unrhyw gerrig milltir a nodir yn eich cais cymeradwy
6. Os ydych ym marn yr Awdurdod, yn cyflwyno'r Prosiect mewn dull esgeulus (yn y cyd-destun hwn, mae esgeulustod yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i fethu ag atal neu adrodd am dwyll neu lygredigaeth wirioneddol neu sy'n cael ei amau)
7. Os ydych yn methu â datgan Cyllid Dyblyg
8. Os ydych yn methu â datgan unrhyw Arian Cyfatebol sy'n wahanol i'r hyn sydd wedi'i nodi yn eich cais cymeradwy
9. Os nad oes gennych chi ddigon o arian ar gael i gwblhau'r gwaith fel na ellir cyflawni'r amcanion a nodwyd yn y ffurflen gais ac unrhyw ddogfennaeth gefnogol.
10. Os yw'r gwaith wedi newid yn sylweddol o'i gymharu â'r manylion yn y ffurflen gais ac unrhyw ddogfennaeth gefnogol a gyflwynwyd heb gael caniatâd ysgrifenedig o flaen llaw gan Gyngor Gwynedd.
11. Os ydych yn derbyn cyllid gan Drydydd Parti sydd, ym marn yr Awdurdod, yn cynnal gweithgareddau sy'n debygol o ddwyn anfri ar y Prosiect neu ar yr Awdurdod;
12. Os ydych yn rhoi gwybodaeth sy'n faterol gamarweiniol neu anghywir ac/neu mae unrhyw ran o'r wybodaeth a ddarparwyd yn eu cais grant neu mewn unrhyw ohebiaeth ategol ddilynol yn cael ei chanfod i fod yn anghywir neu'n anghyflawn i raddau y mae'r Awdurdod yn ei ystyried i fod yn arwyddocaol;
13. Os yw'r defnydd o'r eiddo a nodwyd yn y ffurflen gais yn dod i ben hyd 2035
14. Os ydych yn cyflawni neu wedi cyflawni Gweithred Waharddedig neu'n methu ag adrodd am Weithred Waharddedig i'r Awdurdod, boed honno wedi cael ei chyflawni ganddo chi, eich Cynrychiolwyr neu Drydydd Parti, cyn gynted ag y maent yn dod yn ymwybodol ohono;

15. Mae'r Awdurdod yn pennu (wrth weithredu'n rhesymol) bod Derbynnydd y Grant neu unrhyw un o'i Gynrychiolwyr wedi:

- gweithredu'n anonest neu'n esgeulus ar unrhyw bryd yn ystod tymor y Telerau ac Amodau ac ar draul yr Awdurdod; neu
- wedi cymryd camau gweithredu sy'n dwyn anfri ar enw'r Awdurdod neu ei enw da ac/neu ddwyn anfri ar yr Awdurdod mewn modd annheg neu fod hynny'n debygol o ddigwydd yn annheg. Mae camau gweithredu yn golygu anwaith neu hepgoriadau yn y cyd-destun hwn;
- trosglwyddo, aseinio neu amnewid (novate) y Grant i unrhyw Drydydd Parti heb gydsyniad yr Awdurdod;
- methu â gweithredu yn unol â'r gyfraith; waeth sut bo hynny'n codi, gan gynnwys gwario ar weithgareddau anghyfreithlon;

16 . Eich bod yn rhoi'r gorau i weithredu am unrhyw reswm, neu'n pasio cynnig (neu unrhyw lys gydag awdurdodaeth cymwys yn gwneud gorchymyn) iddo gael ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu (ac eithrio er dibenion ail-luniad neu gyfuniad diddyled bona fide;

17. Eich bod yn mynd yn fethdalwr fel y'i diffinnir gan adran 123 Deddf Ansolfedd 1986, neu'n cael ei ddatgan yn fethdalwr, neu ei fod yn cael ei roi mewn derbynyddiad, gweinyddiad neu fethdaliad, neu fod deiseb wedi'i chyflwyno er mwyn ei ddiddymu neu ei fod yn ymrwymo i unrhyw drefniant neu gyfansoddiad er budd ei gredydwyr neu ei fod yn methu â thalu ei ddyledion wrth iddynt fynd yn ddyledus;

18. Os mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DG neu'r Competition and Markets Authority yn gofyn i'r Grant a dalwyd gael ei adennill yn sgil torri Cyfraith Rheoli Cymorthdaliadau

19. Bod Llywodraeth Cymru neu Llywodraeth y DG yn dal yn ôl talu'r cwbl neu ran o'r cronfeydd (neu'n ei addasu drwy ei ostwng) i'r Cyngor a fwriadwyd ar gyfer y Grant neu'n gofyn am ad-daliad o'r holl neu ran o'r Grant am unrhyw reswm;

20. Os ydych yn torri'r Cod Ymddygiad ac/neu'n methu ag adrodd tor-amod gwirioneddol

21. Eich bod yn mynd drwy Newid Rheolaeth lle mae'r Awdurdod, yn gweithredu'n rhesymol, yn ystyried:

- y bydd yn faterol andwyol i'r Prosiect ac/neu;
- ni all y gorfforaeth newydd barhau i dderbyn y Grant gan nad ydynt yn cwrdd â'r Meini Prawf Cymhwyster a ddefnyddiwyd i ddyfarnu'r Grant i chi;
- mae'r Awdurdod o'r farn y byddai'r Newid Rheolaeth yn codi pryderon diogelwch cenedlaethol ac/neu;
- mae'r gorfforaeth newydd yn bwriadu gwneud newid(iadau) sylfaenol i'r diben y rhoddwyd y Grant ar ei gyfer.

Rhaid i chi hysbysu Cyngor Gwynedd ar unwaith yn ysgrifenedig os bydd unrhyw un o'r amgylchiadau a restrir uchod yn digwydd a bydd y Cyngor yn hysbysu chi fel Derbynnydd y Grant ar unwaith yn ysgrifenedig os bydd yr hyn a ddisgrifir yn 19 uchod, yn digwydd

Os bydd unrhyw un o'r amgylchiadau uchod yn digwydd cyn i'r Grant gael ei dalu, yna bydd Cyngor Gwynedd yn awtomatig ac yn ddiamod yn cael ei ryddhau o'i holl ymrwymiadau i chi (Derbynnydd y Grant)

TRETH AR WERTH

Rydych chi (Derbynnydd y Grant) yn addo ad-dalu i Gyngor Gwynedd unrhyw elfen TAW fydd yn ddiweddarach yn cael ei ad-dalu gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn sgil newid yn eich statws TAW.

AMODAU ARBENNIG

[Lle mae Derbynnydd y Grant yn defnyddio peth o'r Grant i ddatblygu, gwella neu brynu unrhyw Ased gyda gwerth sy'n fwy na [£10,000], rhaid i Dderbynnydd y Grant sicrhau fod pob Ased o'r fath yn cael eu cynnal mewn cyflwr da dros y cyfnod lle y mae'r Ased yn cael ei chofnodi fel Ased yng nghyfrifon Derbynnydd y Grant ("Cyfnod Perchnogi Ased").

Bydd asedau a brynir neu sy'n cael eu gwella gan ddefnyddio'r Grant ym mherchnogaeth Derbynnydd y Grant hyd nes bo'r berchnogaeth yn cael ei throsglwyddo, ei gwaredu neu fel arall, ar ôl cytundeb ysgrifenedig gan yr Awdurdod.

Ni ddylai Derbynnydd y Grant waredu unrhyw Ased sydd â gwerth o fwy na [£10,000] sydd wedi cael ei phrynu, ei hadfer, ei chadw (cynnal a chadw neu wedi'i gwarchod rhag difrod) neu wedi'i gwella yn gyfan gwbl neu'n rhannol gyda'r Grant heb gydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod. Os yw'r Awdurdod yn cydsynio i'r Gwarediad, gall cydsyniad o'r fath fod yn destun boddhad amodau penodol, sydd i'w pennu gan yr Awdurdod.

Mae disgwyl i Gyngor Gwynedd fod yn hollol hysbys o berchnogaeth a defnydd unrhyw eiddo neu offer sydd wedi' brynu neu adnewyddu gyda'r grant yma, hyd 2035. Os ydych yn bwriadu gwerthu'r ased o fewn y cyfnod yna, cysylltwch a ni i drafod trefn priodol o gadw ni'n hysbys o hyn.

Ni fydd Derbynnydd y Grant yn creu unrhyw ffi, morgais cyfreithiol, arwystl, dyledeb neu lien dros unrhyw Ased sydd â gwerth o fwy na [£10,000] heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod.

TRYLOYWDER

Mae'r Awdurdod, a Derbynnydd y Grant yn cydnabod, ac eithrio unrhyw wybodaeth sydd wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu yn unol â darpariaethau'r Deddfau Gwybodaeth, nad yw cynnwys y Telerau ac Amodau yn gyfrinachol.

DYLETSWYDDAU STATUDOL

Bydd Derbynnydd y Grant yn cytuno i lynu at ei rwymedigaethau dan y Deddfau Cymwys gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r Deddfau Gwybodaeth a'r Ddeddf Cydraddoldeb a'r HRA.

Lle bo'r Awdurdod yn gwneud cais amdano, bydd Derbynnydd y Grant yn rhoi cymorth rhesymol a chydweithrediad fel bod modd cydymffurfio â'i rwymedigaethau datgelu gwybodaeth dan y Deddfau Gwybodaeth.

Ar gais yr Awdurdod, bydd Derbynnydd y Grant yn rhoi i'r Awdurdod yr holl ddogfennau a gwybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau diogelu data Derbynnydd y Grant fel y gallai'r Awdurdod wneud cais rhesymol amdanynt.

Mae Derbynnydd y Grant yn cydnabod y gallai'r Awdurdod, yn gweithredu yn unol â'r codau ymarfer a gyflwynwyd ac a adolygwyd o bryd i'w gilydd dan y Deddfau Gwybodaeth, ddatgelu gwybodaeth yn ymwneud â Derbynnydd y Grant a'r Telerau ac Amodau heb ymgynghori â Derbynnydd y Grant.

Bydd yr Awdurdod yn cymryd camau rhesymol i hysbysu Derbynnydd y Grant am gais am wybodaeth, i'r graddau a ganiateir ac sy'n rhesymol ymarferol iddo i wneud hynny. Er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth arall yn y Telerau ac Amodau, bydd yr Awdurdod yn gyfrifol am bennu, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr ei hun, p'un a oes unrhyw wybodaeth yn eithriedig rhag cael ei datgelu yn unol â'r Deddfau Gwybodaeth.

CYHOEDDUSRWYDD

Mae hawl gan Gyngor Gwynedd, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gyhoeddi yn y fath fodd ag y mynna unrhyw fanylion o’r Grant a gynigir/ dalwyd i chi (Dderbynnydd y Grant) at ddibenion cyhoeddusrwydd pe bydd angen. Os byddwch wedi derbyn cefnogaeth Comisiynydd y Gymraeg, byddant hefyd yn caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg defnyddio gwybodaeth am y busnes fel rhan o’u cyhoeddusrwydd o’r prosiect hwnnw. Mi fydd hefyd disgwyliad i chi (Dderbynnydd y Grant) gymryd rhan mewn ymgyrchoedd marchnata Busnes@Gwynedd a/neu Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd, neu rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru

Gan eich bod yn derbyn cefnogaeth Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd, Rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru a Cyngor Gwynedd fel rhan o'r Grant Gwella Eiddo Canol Trefi Gwynedd mae yna ofyniad i chi rhoi cydnabyddiaeth i'r gefnogaeth ariannol hyn. Cyfeiriwch at Canllawiau Cyhoeddusrwydd Grant Gwella Eiddo Canol Trefi Gwynedd, sydd i'w canfod yma – XXXX

YMRWYMIADAU IAITH

Mae Polisi Iaith Cyngor Gwynedd yn nodi y defnyddir unrhyw grant a ddyfernir gan y Cyngor fel modd o hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg o fewn y sir.

Disgwylir felly i unrhyw unigolyn, grŵp neu fusnes sydd yn derbyn nawdd ariannol – ar ffurf grant neu fenthyciad – wneud pob ymdrech i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith a'u gweithgareddau ac i sicrhau bod gwasanaethau dwyieithog ar gael i'r cyhoedd.

Wrth weithredu'r cytundeb / derbyn y grant bydd disgwyl i chi weithredu mewn modd sydd yn cyd-fynd efo'r egwyddor uchod ac ymrwymiadau'r Cyngor dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn ymarferol, bydd hyn yn cynnwys y canlynol:-

a) Sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gynhyrchir fod yn ddwyieithog.

b) Sicrhau bod unrhyw arwyddion a osodir fod yn ddwyieithog.

c) Sicrhau bod unrhyw hyfforddiant neu ddigwyddiadau gyhoeddus yn cael eu cynnal yn ddwyieithog.

Gall y Cyngor ofyn am eglurhad o sut mae'r unigolyn, grŵp neu fusnes yn bwriadu mynd ati i gynnig gwasanaethau dwyieithog, ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a byddwn yn monitro cydymffurfiaeth â'r elfennau penodol a nodir uchod.

At hyn, yn unol ag ymrwymiad y Cyngor i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, byddwn yn croesawu dymuniad cwmni i gynhyrchu unrhyw ddeunyddiau, arwyddion neu gynnal digwyddiad yn y Gymraeg yn unig os bydd natur y gweithgarwch neu gynulleidfa darged yn awgrymu bod hynny yn briodol. Gall y Cyngor hefyd gyfeirio unigolion, grwpiau neu fusnesau at bartneriaid neu ffynhonnellau gwybodaeth a chyngor eraill er mwyn cynnig cefnogaeth i gynyddu defnydd o'r Gymraeg.

CYFLEOEDD CYFARTAL

Rydych yn cadarnhau eich bod yn gweithredu polisi cyfleoedd cyfartal ac nid yw'n gwahaniaethu ar sail hil, tarddiad ethnig, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol mewn perthynas â chyflogi personél, hyrwyddo partneriaid neu ei staff.

PEIDIO ILDIO HAWLIAU

Ni fydd methiant gan Gyngor Gwynedd a/neu unrhyw oediad ganddo wrth weithredu unrhyw hawl, grym neu fraint yn golygu fod y Cyngor yn ildio dim o'r hawliau hynny.

RHYBUDDION

Bydd pob rhybudd a roddir trwy hyn yn ysgrifenedig ac yn cael ei anfon i'r cyfeiriad a nodir yn y llythyr hwn (neu unrhyw gyfeiriad arall y gall unrhyw barti o bryd i'w gilydd nodi yn ysgrifenedig i'r parti arall). Ystyrir y bydd unrhyw rybuddion i chi (Derbynnydd y Grant) trwy hyn fod wedi cael eu cyflwyno'n ddilys os yw'r cyfryw rybuddion yn cael eu rhoi trwy law neu eu danfon drwy bost dosbarth cyntaf i'r cyfeiriad a nodwyd eisoes ac ystyrir y bydd y cyfryw rybuddion wedi'u cyflwyno 48 awr ar ôl eu postio er y gallent fod wedi'u dychwelyd heb eu danfon.

Busnes@
gwynedd.llyw.cymru

CYNGOR
GWYNEDD